

Heddlu Gwent

Datganiad Caethwasiaeth Fodern

2019-2020

Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent a'r Prif Gwnstabl yn cydnabod eu cyfrifoldeb fel cyflogwyr i fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer achosion o gaethwasiaeth fodern ac i roi gwybod am achosion neu bryderon o'r fath i'r cyrff perthnasol.

Beth yw Caethwasiaeth Fodern?

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn ymyrryd â hawliau dynol sylfaenol. Mae'n cynnwys amrywiaeth o ddulliau, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, camfanteisio rhywiol, llafur gorfodol a masnachu mewn pobl, a'r hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw bod rhywun yn amddifadu unigolyn o'i ryddid er mwyn camfanteisio arno er budd personol neu fasnachol.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent a'r Prif Gwnstabl yn ymrwymedig i sicrhau nad oes unrhyw weithgarwch caethwasiaeth fodern na masnachu mewn pobl yng nghadwyni cyflenwi'r heddlu neu mewn unrhyw ran o'r busnes. Mae polisiâu a gweithdrefnau'r heddlu yn dangos ein hymrwymiad i weithredu'n foesebol a gydag uniondeb ym mhob un o'i gydberthnasau busnes.

Yn 2017, ymrwymodd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabliaid y pedwar heddlu yng Nghymru i God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae Heddlu Gwent yn gwbl ymrwymedig i fynd i'r afael ag arferion anfoesebol ac anghyfreithlon mewn cadwyni cyflenwi ac mae wedi llunio [Cynllun Gweithredu](#) mewn perthynas â'r ymrwymadau yn y Cod.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent a'r Prif Gwnstabl yn rhoi'r Cod ar waith ym mhob rhan o'r busnes gan ganolbwyntio ar bedwar maes:

Gorfodi – gwella'r gwaith o gasglu cudd-wybodaeth drwy gydymffurfio â'r Cod Ymarfer

Caffael Moesebol – hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi moesebol wrth gyflenwi contractau ar gyfer gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru

Cyflogaeth – Cymru gyfan yn gweithio tuag at bolisi cyffredin gyda chefnogaeth pob un o'r sefydliadau gan effeithio ar fusnes prif ffordd a busnes o ddydd i ddydd

Amgylchedd – Sicrhau nad yw'r cyhoedd yng Nghymru yn wylwyr a'u bod yn rhoi gwybod am gamfanteisio o bob math

Mae'r Strategaeth Caffael ar y Cyd 2015-2020 yn cynnwys ffocws cynyddol ar ddarparu llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy'r ffordd y mae'r heddlu yn rheoli ei weithgarwch caffael.

Lle y bo'n briodol, bydd yr Heddlu, drwy ei brosesau tendro, yn gofyn i gyflenwyr a darpar gyflenwyr sicrhau nad ydynt yn ymwybodol o unrhyw un o'r dulliau caethwasiaeth fodern uchod yn eu sefydliadau neu gadwyni cyflenwi. Bydd yr Heddlu yn disgwyl i'r cyflenwyr hynny gymryd cyfrifoldeb i geisio sicrwydd tebyg o'u cadwyni cyflenwi eu hunain. Mae Gweithrediaeth Gaffael Genedlaethol yr Heddlu wedi cytuno i sefydlu grŵp cenedlaethol, wedi'i gadeirio gan Arweinydd Caffael Strategol heddluoedd De Cymru, er mwyn rhannu arfer da ar draws sector yr heddlu a llunio cynllun cenedlaethol i archwilio cadwyni cyflenwi ym mhob rhan o wasanaeth yr heddlu.



Hyfforddiant

Mae staff Caffael Strategol wedi cwblhau hyfforddiant 'Caffael a Chyflenwi Moesegol' ar-lein y Sefydliad Siartredig ar gyfer Prynu a Chyflenwi a chaiff hwn ei loywi bob blwyddyn. Yn ogystal â hyn, bydd gofyn i bob aelod o staff wyllo fideo Llywodraeth Cymru am y Cod. Bydd staff sy'n ymwneud â chaffael a/neu recriwtio yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol drwy fodiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru/y GIG.

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent a'r Prif Gwnstabl yn cymhwyso cyfraddau cyflog byw y Living Wage Foundation ac mae heddluoedd Cymru wedi cytuno i ddatblygu Polisi Chwythu'r Chwiban Cymru Gyfan gan gyfeirio'n benodol at y Cod Ymarfer.

Mae'r amcanion ar gyfer 2019–2020 wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu

Mae gan y cyhoedd a'r staff yr un cyfrifoldeb i fod yn ymwybodol o achosion posibl o gaethwasiaeth fodern neu fusnes sy'n defnyddio llafur gorfodol. Os bydd gennych unrhyw bryderon o'r fath, cysylltwch ag un o'r cyrff canlynol:

Heddlu Gwent: Ffôn 101 (neu 999 os yw'n argyfwng)

Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern: Ffôn 0800 0121700

Crimestoppers: Ffôn 0800 555 111

Lawrlwythwch yr Ap 'Unseen' am ddim.

Mae'r Datganiad hwn wedi'i gymeradwyo gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent a'r Prif Gwnstabl. Caiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n flynyddol.



Jeff Cuthbert
Comisiynydd Heddlu a
Throseddau Gwent



Julian Williams
Prif Gwnstabl
Heddlu Gwent



08000 121 700



**MODERN
SLAVERY**
Police Transformation

Dyddiad: 15/3/19

